# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 9FED MEDI, 2019**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor,**

**Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 2/9/2019)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

**AELODAETH (15)**

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Steve Collings
Dafydd Owen
Peter Read
Sedd Wag - Plaid Cymru
Annwen Hughes
Edgar Wyn Owen
Elfed Williams
Gareth Jones

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
Jason Wayne Parry
Eryl Jones-Williams
Angela Russell

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Gareth Williams

## Aelod Unigol (2)

Y Cynghorydd
W Roy Owen

Sedd Wag - Aelod Unigol

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 3 Mehefin 2019 fel rhai cywir

## 5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 6 - 11

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinnol a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

a) 03.06.19
b) 20.06.19

## 6. UCHAFSWM PRISIAU TEITHIAU CERBYDAU TACSI HACNI 12 - 17

I ystyried adroddiad Pennaeth yr Amgylchedd

## PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, 03.06.19

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Gareth Jones, Eryl Jones-Williams, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Jason Wayne Parry, Peter Read, Angela Russell, Elfed W. Williams a Gareth Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

### 1. ETHOL CADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Elfed Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y cyfnod 2019 – 2020

### 2. ETHOL IS GADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Annwen Hughes yn Is Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y cyfnod 2019 – 2020

### 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Sïon Jones

Croesawyd y Cynghorydd Gareth Jones fel aelod newydd i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

### 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 5. MATERION BRYS

Gwnaed cais gan y Cynghorydd Eryl Jones Williams i drafod a chadarnhau aelodaeth panel ar gyfer ceisiadau trwyddedu cerbydau tu allan i bolisi. Nododd y Swyddog Trwyddedu bod y Polisi Tacsi Unedol yn cael ei adolygu, ond yn y cyfamser bod ceisiadau wythnosol yn cael ei gwneud i'r panel gan nad yw'r swyddogion gyda'r awdurdod i wneud penderfyniad. Amlygwyd bod y panel yn cynnwys tri aelod - fel arfer y Cadeirydd, Is-gadeirydd, cyn gadeiryddion neu'r aelod mwyaf profiadol.

**PENDERFYNWYD enwebu'r Cynghorwyr Elfed Williams, Annwen Hughes a Peter Read fel aelodau i'r panel.**

### 6. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 11eg o Ebrill 2019 fel rhai cywir.

Yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor i enwebu aelodau ar gyfer cylch gorchwyl i ystyried cynnwys Polisi Trwyddedu Tacsi Unedig (drafft) amlygodd y Swyddog Trwyddedu y byddai cyfarfod cychwynnol o'r cylch gorchwyl yn cael ei drefnu ymhen 6 wythnos.

## 7. COFNODION IS BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 16.04.2019, 12.04.19 a 20.03.19

Mynegodd y Cynghorydd Eryl Jones Williams ei fod yn dymuno camu i lawr fel un o gadeiryddion yr Is Bwyllgorau a diolchodd i'r Aelodau a'r swyddogion am eu cefnogaeth.

Diolchodd y Cynghorydd Peter Read i aelodau'r Pwyllgor a'r swyddogion am eu cefngoaeth tra yn Gadeirydd y Pwyllgorau Trwyddedu.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.20am a daeth i ben am 10:30am

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 03.06.2019

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Peter Read (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Annwen Hughes ac Angela Russell

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

a) Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau a'i amgylchiadau personol. Amlygodd bod y digwyddiadau yn rhan o'i orffennol a'i fod bellach yn ceisio am swydd fyddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd iddo gefnogi ei wraig a'i blant. Roedd ei ddarpar gyflogwr yn gefnogol i'w gais.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i ddarpar gyflogwr o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

b) **PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

c) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd yr ymgeisydd a'i ddarpar gyflogwr yn ystod y gwrandawiad
- geirda a dderbyniodd gan yr Aelod Lleol
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS

ch) Derbyniodd yr ymgeisydd ddwy gollfarn yn Ionawr 1990 gan Lys Ynadon Caernarfon am droseddau o ddifrod troseddol yn groes i Ddeddf Difrod Troseddol 1971. Cafodd orchymyn i dalu dirwy o £50, iawndal o £423 a chostau o £15. Nododd yr ymgeisydd yn ei ffurflen gais ei fod yn 1992 wedi cael ei wahardd rhag gyrru oherwydd trosedd o yfed a gyrru. Cadarnhaodd bod y gwaharddiad wedi dod i ben yn 1993.

d) Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae adran 6 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais ac fe nodir ym mharagraff 6.5 o'r Polisi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ddifrod troseddol sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Mae'r paragraff yn rhestru troseddau ac mae difrod troseddol yn cael ei gynnwys yn y rhestr. Mae paragraff 6.6 yn nodi y bydd cais yn cael ei wrthod os oes mwy nag un gollfarn am drosedd o natur dreisgar yn erbyn yr ymgeisydd o fewn y 10 mlynedd diwethaf.

Mae paragraff 11.1 o bolisi'r Cyngor yn ymwneud ag yfed a gyrru ac yn nodi na fyddai collfarn unigol yn arwain at wrthod cais (neu ddiddymu trwydded bresennol) ar yr amod bod 3 mlynedd wedi mynd heibio ers i'r gwaharddiad ddod i ben. Mae adran 12.0 o'r polisi yn ymwneud a chollfarnau moduro gyda pharagraff 12.10 yn nodi y bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os oes collfarn neu fater i'w ystyried wnaeth arwain at waharddiad o 12 mis neu fwy, oni bai bod 18 mis o leiaf wedi pasio ers diwedd y gwaharddiad

dd) Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Daeth yr Is-bwyllgor i benderfyniad bod troseddau 1990 yn droseddau o drais. Gan fod y troseddau hyn wedi digwydd dros 29 mlynedd yn ôl, sydd tu hwnt i'r cyfnod 10 mlynedd, nid oedd paragraff 6.6 o'r Polisi yn goroesi ac felly nid yn sail i wrthod y cais. Wrth ystyried trosedd yfed a gyrru 1992, penderfynodd yr Is-bwyllgor, gyda 26 mlynedd wedi pasio ers i'r gwaharddiad ddod i ben, nad oedd modd gwrthod y cais o dan baragraffau 11.1 a 12.0.

Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol, i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 15:05pm a daeth i ben am 15:30pm

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Elfed Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Jason W Parry, Edgar Owen

**Swyddogion:** Sion Huws (Cyfreithiwr), Alun Roberts (Swyddog Gwarchod y Cyhoedd) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

a) Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau a'i amgylchiadau personol. Amlygodd bod y digwyddiadau treisgar yn rhan o'i orffennol a'i fod bellach yn rhedeg cwmni tacsi. Ategodd nad oedd y collfarnau wedi eu trafod yn ystod ei gais blaenorol am drwydded a bod disgwyl am wrandawiad a

phenderfyniad wedi golygu ei fod wedi colli gwaith. Nododd nad oedd cwynion wedi dod i law am ei wasanaeth

Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**b) PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

c) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawiad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS

ch) Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn ym Mehefin 2004 gan Lys Ynadon Caernarfon am drosedd o ymosodiad cyffredinol yn groes i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988. Cafodd orchymyn i dalu dirwy o £50 ac iawndal o £100. Derbyniodd gollfarn ym Mawrth 2006 gan Lys Ynadon Sir Ddinbych am drosedd o guro yn groes i adran 39 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988. Derbyniodd hefyd gollfarn am ddefnyddio geiriau bygythiol, ymosodol/sarhaus oedd yn debygol o achosi aflonyddwch, braw neu drallod yn groes i Ddeddf Trefn Cyhoeddus 1986. Cafodd orchymyn cymunedol a gorchymyn goruchwylio am 12 mis yn dilyn y digwyddiad ynghyd a gorchymyn i dalu iawndal o £75, costau o £350. Ym Mehefin 2018 derbyniodd 6 pwynt cosb ar ei drwydded gyrru am dorri gofynion rheoli cerbyd, ffôn symudol ayyb.

d) Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae adran 6 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais ac fe nodir ym mharagraff 6.5 o'r Polisi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Mae'r paragraff yn rhestru troseddau ac mae ymosodiad cyffredin yn cael ei gynnwys yn y rhestr. Mae paragraff 6.6 yn nodi y bydd cais yn cael ei wrthod os oes mwy nag un gollfarn am drosedd o natur dreisgar yn erbyn yr ymgeisydd o fewn y 10 mlynedd diwethaf.

Mae paragraff 13.3 yn nodi y gallai mwy nag un gollfarn am fân drosedd traffig neu fater arall i'w ystyried arwain at wrthod cais, yn enwedig os oes sawl collfarn neu faterion eraill i'w hystyried ar gyfer yr un drosedd. Gellir cyfeirio gyrrwr trwyddedig at sylw Is-bwyllgor trwyddedu os oes mwy na dwy drosedd neu gyfanswm o 6 phwynt ar drwydded.

Mae paragraff 16.1 o bolisi'r Cyngor yn ymwneud ag ail-droseddu. Rhaid yn gyntaf sicrhau bod y collfarnau'n bodloni canllawiau'r polisi yn unigol, ond gyda'i gilydd yn creu hanes o ail-droseddu sydd yn dangos diffyg parch at les eraill ac eiddo. O dan y Polisi rhaid bod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn fwyaf diweddar.

dd) Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

- bod troseddau 2004 a 2006 yn droseddau o drais. Gan fod y troseddau hyn wedi digwydd mwy na 10 mlynedd yn nol, nid oedd sail i wrthod y cais o dan baragraffau 6.6 a 16.1 o’r Polisi.
- bod yr arnodiad gyrru, er yn fater o bryder, ddim yn cyrraedd trothwy gwrthod y cais

Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol, i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai’r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i’r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 11:35am a daeth i ben am 11:50am

Eitem 6

| PWYLLGOR | PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL |
|---|---|
| DYDDIAD: | 9 MEDI 2019 |
| TEITL: | UCHAFSWM PRISIAU TEITHIAU CERBYDAU TACSI HACNI |
| PWRPAS: | CYMERADWYO CYNNIG GAN Y DIWYDIANT I GODI'R UCHAFSWM PRISIAU - YN DILYN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD |
| AWDUR: | PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD |

**1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL**

1.1 Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ( Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn gosod dyletswyddau rheoleiddio ar yr Awdurdod Trwyddedu mewn perthynas â gweithredu uchafbris a all gael ei godi ar y cyhoedd wrth deithio mewn cerbydau hacni oddi fewn i'r Sir . Mae'r ddeddf yn caniatáu darparu tabl prisiau, ac mae hyn ynghyd a'r gofyniad statudol i ddefnyddio cloc tacsi (taxi meter) yn caniatáu mecanwaith i reoleiddio'r prisiau a godir ac i ddiogelu buddiannau'r cyhoedd.

1.2 Mae'n ofynnol fod unrhyw gais am newid yr uchafbris a godir yn cael ei gyflwyno gan y diwydiant . Fe dderbyniwyd cais yn ddiweddar gan Mr John Pritchard, perchennog cwmni tacsi i adolygu'r prisiau. Mae'n ofynnol o dan adran 65 o'r Ddeddf fod unrhyw argymhelliad i newid y prisiau yn cael ei hysbysebu mewn papur lleol am o leiaf 14 diwrnod i ganiatáu i unrhyw wrthwynebiad i gael ei ystyried.

1.3 Nid yw'r uchafbris yn berthnasol i deithiau mewn cerbydau hurio preifat , a drefnir ymlaen llaw.

1.4 Fe gafwyd cais llwyddiannus i gynyddu'r uchafbris yn 2011, ac nid oes newid wedi bod ers hynny. Gweler atodiad 1 am dabl o'r uchaf brisiau presennol; a'r uchafbris arfaethedig.

1.5 Mae'r Cyngor dros y 6 mlynedd diwethaf wedi bod yn gorfod cynyddu'r ffioedd a godir am drwyddedau gyrwyr, cerbydau a gweithredwyr tacsi er mwyn ceisio adennill costau prosesu a gweinyddu trwyddedau, ac mae hyn wedi cynyddu baich ariannol ar y diwydiant.

1.6 Er nad oes cynnydd mewn costau tanwydd wedi bod ar gyfartaledd ers 2011, mae costau yswiriant priodol ar gyfer cerbydau trwyddedig wedi cynyddu.

1.7 Fe welir o'r tabl isod yr uchafbris sydd yn cael ei weithredu ar gyfer teithiau mewn cerbydau hacni dros 6 sir y Gogledd . Er cymhariaeth, mae'r uchafbris arfaethedig ar gyfer Gwynedd wedi ei gynnwys hefyd -

**Tabl – pris cyfatebol am 2 filltir o daith**

| Gwynedd Cyfredol | Gwynedd arfaethedig | Cyfartaledd cyfredol 6 sir | Môn | Conwy | Fflint | Dinbych | Wrecsam |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £5.00 | £6.00 | £5.90 | £6.00 | £5.20 | £6.20 | £6.00 | £7.20 |

1.8 Mae’r cynnydd arfaethedig ar gyfer uchafbris taith cerbyd hacni wedi ei gyfrifo wrth ychwanegu chwyddiant ar gyfartaledd o 2.6% y flwyddyn at y pris taith y filltir a bennwyd yn 2011. Mae ffigyrau Banc Lloegr wedi eu defnyddio i'r pwrpas.

1.9 Ni argymhellir fod costau ychwanegol megis cyfradd amser disgwyl , neu gostau cario bagiau ychwanegol etc yn cael eu newid. Gweler atodiad 2 o’r adroddiad am fanylion llawn, a chymhariaeth gyda siroedd eraill y Gogledd.

1.10 Mae’n bwysig nodi nad oes rhaid i gwmni tacsi godi'r uchafbris am deithiau mewn cerbyd hacni. Mae llawer o gwmnïau yn dewis peidio - ac yn codi prisiau sydd yn is ac yn unol â’r hyn a ystyrir i fod yn gyfradd cystadleuol.

**2 PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL - 11 EBRILL 2019**

2.1 Yn ei gyfarfod ar yr 11fed o Ebrill 2019, fe benderfynodd y Pwyllgor hwn dderbyn y cynnig arfaethedig i godi uchafbris a ellir ei godi am daith mewn cerbyd hacni yn unol â’r argymhelliad; yn ddarostyngedig i’r ymgynghoriad cyhoeddus statudol .

**3 YMATEBION A DDERBYNIWYD YN DILYN YR YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS**

3.1 Yn dilyn ymgynghoriad ar yr uchafbris mewn papurau lleol , am 14 diwrnod; fe dderbyniwyd 4 e bost mewn ymateb; gan unigolion o’r diwydiant tacsi ac un aelod o’r cyhoedd . Gweler atodiad 3 sydd yn cynnwys manylion yr ymatebion a ddaeth i law.

3.2 Ni ddaeth yr uchafbris arfaethedig i rym yn dilyn yr ymgynghoriad ; oherwydd bod ymatebion wedi eu derbyn i’r ymgynghoriad. Yn unol â’r drefn; mae’r ymatebion yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor hwn er ystyriaeth; cyn dod i benderfyniad terfynol ar yr uchafbris.

3.3 Fe godwyd y pwynt gan un ymatebydd nad oedd yn teimlo fod yr uchafbris o £45 ar gyfer ffi glanhau tu mewn cerbyd tacsi ar ôl cwsmer yn ddigonol i adennill gwir gost . Awgrymodd y dylid ystyried codi’r uchafbris i £70. Fe godwyd y pwynt hefyd fod yn anodd dod o hyd i newid arian man os ydynt yn gweithredu'r uchafbris arfaethedig.

3.4 Fe nododd un gyrrwr tacsi ei fod yn gwrthwynebu'r newidiadau; ond ni roddwyd rheswm am y gwrthwynebiad.

3.5 Fe nododd y trydydd ymatebydd o’r diwydiant tacsi ei fod o’r farn y dylid meddwl am ail gyfrifo faint mae’r filltir gyntaf yn ei gostio.

3.6 Roedd yr un ymatebydd nad oedd yn rhan o’r diwydiant tacsi yn nodi ei farn fod angen integreiddio gwell rhwng y gwahanol ffurf o drafnidiaeth gyhoeddus; ac y dylid ystyried sybsideiddio teithiau mewn tacsi.

**ARGYMHELLIAD**

Bod y Pwyllgor yn ystyried yr ymatebion; ac yn cymeradwyo'r cynnig i godi’r uchafbris gall y diwydiant tacsi godi am deithiau mewn cerbyd hacni yn y Sir.

# CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

## PRISIAU CLUDO CERBYD HACNI / HACKNEY CARRIAGE FARE

yn weithredol trwy ardal y Cyngor o 1af Tachwedd 2011
in operation throughout the area of the Council as from 1st November 2011

(1) **Milltiroedd / Mileage**

*Oni fydd y pellter cyfan yn fwy nag un filltir*
If the distance does not exceed one mile for the whole distance………………… £3.00c/p

*Os yw'r pellter yn fwy nag un filltir:- am y filltir cyntaf*
If the distance exceeds one mile:- for the first mile……………………………… £2.50c/p

*Am bob degfed rhan o filltir wedyn neu ran o hynny*
For each subsequent one-tenth of a mile or uncompleted part thereof…………… £0.25c/p

(2) **Amser Disgwyl / Waiting Time**

*Am bob cyfnod o 1 munud neu ran o hynny*
For each period of 1 minute or uncompleted part thereof……….. £0.25c/p

(3) **Taliadau Ychwanegol / Extra Charges**

a) *Am logi'r cerbyd rhwng hanner nos a 7 y.b. unrhyw ddydd neu ar unrhyw amser ar Wyl y Banc, heblaw am Ddydd Nadolig a Dydd Calan* ……………………………………………………….. *50% o'r cyfradd dâl uchod*

For hirings between midnight and 7.00a.m. on any day or at any time on Bank Holidays *except* Christmas Day and New Year's Day……………………………………………. 50% of the above rates

*Dydd Nadolig a Dydd Calan* ………………………. *100% o'r cyfradd dâl uchod*

Christmas Day and New Year's Day ………………………. 100% of the above rates

b) *Am bob cês a bag yn ychwanegol at un cês a gludir tu allan i'r caban teithwyr*
For each article of luggage in excess of one case conveyed outside the passenger compartment of the carriage ………………………… £0.30c/p

c) *Am bob person yn fwy nag un, am y cyfan o'r daith*
For each person in excess of one of the whole journey ………….. £0.40c/p

ch) *Am gludo anifeiliaid, h.y. Cwn a Cathod*
Carriage of animals, i.e. Dogs and Cats……………………………. £1.20c/p

***Nodir: Fod dim tâl i'w godi am gludo Ci Tywys***
**Note: No Charge shall be made for the carriage of Guide Dogs.**

d) *Baeddu'r Cerbyd……………………………………………………………* *£45.00c/p*
Soiling the Vehicle

Aled Davies
*Pennaeth Adran Rheoleiddio*/Head of Regulatory Department
Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd/Public Protection Services

Cyngor Gwynedd Council
Swyddfeydd y Cyngor / Council Offices
Stryd y Jêl / Shirehall Street
CAERNARFON
Gwynedd LL55 1SH

**Tabl cymharu prisiau cludo cerbyd Hacni**

Ychwanegu 20% chwyddiant      Prisiau cyfartaledd (Average)

| Milltiroedd | Gwynedd | Gwynedd Prisiau newydd | Prisiau cyfartaledd y siroedd | Ynys Môn | Conwy | Sir y Fflint | Sir Ddinbych | Wrecsam |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oni fydd y pellter cyfan yn fwy nag un filltir | £ 3.00 | £ 3.60 | £ 3.08 | £ 3.00 | £ 2.80 | £ 3.10 | £ 3.00 | £ 3.60 |
| Os yw'r pellter yn fwy nag un filltir, am y filltir cyntaf | £ 2.50 | £ 3.00 | £ 2.90 | N/A | £ 2.60 | £ 3.10 | N/A | £ 3.60 |
| Am bob degfed rhan o filltir wedyn neu ran o hynny | £ 0.25 | £ 0.25 | | £ 0.28 | £ 0.26 | £ 0.16 | £ 0.20 | £ 0.19 |
| Am bob 216 llath ar ol hynny neu ran o hynny | N/A | N/A | | N/A | N/A | £ 0.20 | N/A | N/A |
| Am bob 184 llath | N/A | N/A | | N/A | N/A | N/A | N/A | £ 0.20 |
| **Amser disgwyl** | | | | | | | | |
| Am bob cyfnod o 1 munud neu ran o hynny | £ 0.25 | £ 0.25 | | £ 0.25 | £ 0.20 | £ 0.20 | £ 0.30 | £ 0.24 |
| Am bob cyfnod o 1 munud neu ran o hynny (rhwng 12yh a 6yb) | N/A | N/A | | N/A | N/A | N/A | £ 0.40 | N/A |
| **Taliadau ychwanegol** | | | | | | | | |
| Am logi'r cerbyd rhwng 12yh - 7yb unrhyw ddydd neu ar unrhyw amser Wyl y Banc, heblaw am Ddydd Nadolig a Dydd Calan (12yh a 6yb i Sir y Fflint, Dinbych a Wrecsam) | +50% o'r cyfradd uchod | £ 5.40 | £ 4.63 | +100% o'r cyfradd uchod (50% ar Wyl y Banc) | +50% o'r cyfradd uchod | +50% o'r cyfradd uchod | +50% o'r cyfradd uchod | £3.60 (ychwanegu 10% tu allan i'r fwrdiestref a siwnreiau a llogwyd o flaen llaw) |
| Dydd Nadolig a Dydd Calan (Dydd Nadolig a Gwener y Groglith yng Nghonwy) cynhwysir Gwyl San Steffan yn Sir Fflint, Dinbych a Wrecsam ac Ynys Môn) | +100% o'r cyfradd uchod | £ 7.20 | £ 8.20 | +100% o'r cyfradd uchod | +100% o'r cyfradd uchod | +100% o'r cyfradd uchod | +50% o'r cyfradd uchod | +75% o'r cyfradd uchod |
| Am bob taith sy'n dechrau rhwng 6yh a hanner nôs ar Noswyl y Nadolig / Noswyl Blwyddyn Newydd | N/A | N/A | | N/A | +50% o'r cyfradd uchod | N/A | N/A | N/A |
| Am bob ces a bag yn ychwanegol ar un ces a gludir tu allan i'r caban teithwyr | £ 0.30 | £ 0.30 | | £ 0.25 | £ 0.20 | £ 0.20 | £ 0.20 | £ - |
| Am bob person yn fwy nag un, am cyfan o'r daith (fwy na dau yn Sir y Fflint) | £ 0.40 | £ 0.40 | | £ 0.40 | £ 0.20 | £ 0.15 | £ - | £ - |
| Am gludo anifeiliaid, h.y. Cwn a Cathod | £ 1.20 | £ 1.20 | | £ 1.20 | £ 0.30 | £ 0.50 | £ 0.20 | £ - |
| Baeuddu'r cerbyd | £ 45.00 | £ 45.00 | | £ 45.00 | £ 100.00 | Heb nodi | £ 100.00 | £ 50.00 |

**ATODIAD 3 – SYLWADAU A DDERBYNIAWYD YN DILYN YR YMGYNGHORIAD**

**APPENDIX 3 – REPRESENTATIONS RECEIVED FOLLOWING THE PUBLIC CONSULTATION**

**Oddi wrth:** Alan Patterson
**Anfonwyd:** Dydd Sul, 30 Mehefin 2019 16:16
**At:** Trwyddedu <Trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru>
**Pwnc:** Ymgynghoriad prisiau hurio cerbyd hacni

Gwerthfawrogir pe byddech yn ail-edrych ar y ffi. Yn hytrach na £3.60 am deithiau lleol, tybed fyddai modd ystyried unai £3.50 neu £3.80. Pam? Wel, mae'n haws i yrrwr tacsi ddod o hyd I'r newid cywir ar gyfer y ddau swm yma, er enghraifft, un darn 50c neu un darn 20c, yn hytrach na gorfod darganfod dau ddarn 20c ar gyfer pob ffi o £3.60. Rhaid cysidro ei bod yn amhosibl cael newid yn ystod y dydd o'r banc gan nad oes ganddynt bellach gownter (Lloyds). Yn ogystal, mae ffi baeddu tacsi yn llawer rhy isel ar £45 – dylid ei gynyddu i o leiaf £70. Byddai gorfod mynd gartref i lanhau yn golygu colli sawl cwsmer am y cyfnod, yn arbennig ar benwythnos.

Alan Patterson

**EMAIL RECEIVED 20/6/19**

**From; Mr D C OWEN**

**Rwyf yn gwrthwynebu codi prisiau tacsi**

**I object to the increase in taxi fares**

**From:** R BLEASE
**Sent:** 01 July 2019 00:25
**To:** Trwyddedu
**Subject:** Hackney carriage fares

Dear Sir's

I am of the opinion that your proposed increase in hackney fares is disproportional to the cost's incurred by the hackney operators,

and should be reconsidered, as should the provision of public transport.

Public transport should be expanded with greater interaction between bus and train travel,and greatly subsidised to allow greater freedom

of movement of student's, young people in low paid employment,and people in receipt of military and aged benefits.

Yours Sincerely

Roger L Blease.

**Email received 27/6/19**

**From – Steve Stanway**

The new proposed increase is very welcome Just one small problem 1st mile £3.60 Journey exceeding 1 mile £3.00 for 1st mile and 30p per 10th mile which means 1 passenger journey lasting 1.1 miles only pays £3.30 We have to travel 1.2 miles to get £3.60 Can all meter fares be £3.60 for 1st mile and 30p per 10th mile there after It's very complicated to set the meter chips for your calculations Thanks Steve STANWAYS TAXIS Sent from my iPad